Cyswllt Cymunedol

TACHWEDD 2018

Croeso...

Helo a chroeso i rifyn mis Tachwedd o'm cylchlythyr. Fel cynrychiolydd cyhoeddus, rydw i eisiau rhoi diweddariadau am fy ngwaith i breswylwyr, ymwelwyr a dioddefwyr trosedd.

Fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, un o'm prif dasgau yw i bennu praesept yr heddlu, sef y swm o arian y byddwch yn ei dalu ar gyfer plismona yn eich treth gyngor. Cyn y gallaf bennu'r praesept, mae'n bwysig fy mod yn gwrando ar eich barn. Cadwch lygad ar fy ngwefan dros yr wythnosau nesaf i glywed sut y gallwch gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar y praesept, gan fy helpu i ddod i benderfyniad.

Yn y cylchlythyr hwn, ceir manylion am rywfaint o'r gwaith rwyf wedi'i wneud a rhai o'r gweithgareddau rwyf wedi bod yn gysylltiedig â nhw ers y rhifyn diwethaf ym mis Medi.

Rwy'n gobeithio byddwch chi'n teimlo bod y cylchlythyr hwn yn hygyrch ac addysgiadol. Ceir manylion ychwanegol am gynnydd, a'r hyn yr wyf i a'r Prif Gwnstabl wedi cyflawni o ran gwneud Dyfed-Powys yn ardal fwy diogel, ar fy ngwefan.

Diolch.

Dafydd Llywelyn
Police and Crime Commissioner

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

Y penawdau...

Adroddiad Blynyddol 2018

Dal y Llu i gyfrif

Wythnos Ymwybyddiaeth o Gasineb

Ymateb i'r Llifogydd

Digwyddiadau i ddod...

1. **Aberystwyth**
2. **Hwlffordd**
3. **Llanfair-ym-Muallt**

Rydyn ni wrthi'n recriwtio ar gyfer y Cyd-bwyllgor Archwilio!

Dyddiad cau: 12 Tachwedd 2018 - 12:00
Dyddiad cyfweliad: 20 Tachwedd 2018
Am ragor o wybodaeth am y rôl, edrychwch ar ein gwefan: http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/y-swyddfa/ymunwch-ar-tim/
Neu cysylltwch â:
Carys Morgans
Rhif ffôn: 01267 226440
E-bost: carys.morgans.opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

Adroddiad Blynyddol

2018

Rhagair

Mae eleni'n nodi dwy flynedd ers i mi gael fy ethol yn Gomisiynydd Heddlu a Throseddu, ac rwy'n gobeithio ei bod hi'n glir erbyn hyn fy mod i'n angerddol am fy ngwaith a'r ardal rydyn ni'n ddigon ffodus i alw'n gartref i ni – Dyfed-Powys.

Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn gosod dyletswydd ar Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu i gynhyrchu adroddiad blynyddol. Mae'r adroddiad, a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn dilyn cymeradwyaeth y Panel Heddlu a Throseddu, yn cynnwys manylion am yr holl waith caled a wnaed gan fy nhîm a minnau. Yn yr adroddiad hwn ceir manylion helaeth am waith caled ac ymroddiad minnau a'r tîm.

Rydym wedi ymdrechu dros y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau bod cyfleoedd gennych i gwrdd â ni a'r Heddlu i fynegi'ch pryderon, a'ch bod yn fy ngweld ar waith mewn cyfarfodydd atebolrwydd cyhoeddus gyda'r Prif Heddweision a gynhelir ym mhob un o'r pedair sir.

'...gofal a ddarperir i ddioddefwyr gan dîm Goleudy, gofal a gafodd ei gydnabod yn genedlaethol bellach fel gofal eithriadol.'

Rhoddwyd ffocws ar ymgysylltu â'r cyhoedd a chydweithio i ddiogelu'r rhai agored i niwed. O ganlyniad newidiwyd y pwyslais - newid oedd fawr ei angen - i ganolbwyntio ar y gofal a ddarperir i ddioddefwyr gan dîm Goleudy, gofal a gafodd ei gydnabod yn genedlaethol bellach fel gofal eithriadol. Mae plismona effeithiol ac effeithlon wrth wraidd popeth a wnawn, ac ni fydd hynny byth yn newid.

Adlewyrchir y camau cadarnhaol hyn yn arolwg diweddaraf Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi, a chawsom radd gyffredinol 'Da' am y tro cyntaf ers i'r Arolygiaeth gyflwyno fframwaith arolygu PEEL. Rwyf yn hynod falch o'r gydnabyddiaeth gadarnhaol hon. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod tirwedd plismona'n newid trwy'r amser, ac mae llawer iawn o waith o'n blaenau o hyd.

Adroddiad Blynyddol

2018

Mae'r Heddlu hwn yn sefydliad gweddol fychan sy'n gyfrifol am ardal sydd, i raddau helaeth, yn wledig. Fy mwriad bob amser yw sicrhau proffil cenedlaethol i Heddlu Dyfed-Powys. Rwyf wedi ymdrechu i ddylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio ar yr Heddlu, ac ar Gymru fel gwlad, trwy aelodaeth o ystod o fyrddau cenedlaethol y mae eu gwaith yn effeithio'n sylweddol ar ddyfodol plismona yng Nghymru.

Wrth gyrraedd canol fy nhymor yn Gomisiynydd, rwyf wedi cymryd rhywfaint o amser i fyfyrio ar yr heriau a'r cyfleoedd yr wyf wedi'u hwynebu, ac ar sut yr ymatebwyd iddynt. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi crynodeb o'm gweithgarwch, gwaith fy swyddfa, a'r ffordd yr ydym yn cydweithio'n adeiladol gyda Heddlu Dyfed-Powys i ddarparu'r gwasanaeth plismona gorau posibl.

'Adlewyrchir y camau cadarnhaol hyn yn arolwg diweddaraf Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi, a chawsom radd gyffredinol 'Da' am y tro cyntaf.'

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi crynodeb o'm gweithgarwch, gwaith fy swyddfa, a'r ffordd yr ydym yn cydweithio'n adeiladol gyda Heddlu Dyfed-Powys i ddarparu'r gwasanaeth plismona gorau posibl. Am ragor wybodaeth, cliciwch ar y ddolen isod.

Dafydd Llywelyn
Comisiynydd Heddlu a Throseddu




Content

Foreword	1
About this Annual Report	3
Setting out my priorities	4
The Office of the Police and Crime Commissioner	5
Working with the Chief Officer Team	6
Keeping our communities safe	7
Safeguarding the vulnerable	10
Protecting our communities from serious threats	15
Connecting with communities	17
Working together	25
Spending money wisely	28
Commissioning	31
Looking ahead	32

2018

Heddlu Dyfed-Powys yn dathlu 50 mlynedd - Diwrnod Agored y Pencadlys

Parhau y gwnaeth dathliadau pen-blwydd y llu yn 50 ddydd Sul, 16 Medi gyda diwrnod agored ym Mhencadlys yr Heddlu yn Llangynnwr, Caerfyrddin.

Ar 1 Ebrill 1968 unwyd Heddluoedd siroedd Caerfyrddin ac Aberteifi, Heddlu Canolbarth Cymru a Heddlu Sir Benfro i greu Heddlu Dyfed-Powys, gan greu'r llu heddlu daearyddol mwyaf yng Nghymru a Lloegr. Newidiwyd yr enw i Heddlu Dyfed-Powys ym 1974.

Gwelwyd llawer o newidiadau ers 1968 yn cynnwys y wisg, lleoliad y gorsafoedd heddlu, gwelliannau mewn technoleg a ffurf teulu'r heddlu. Bu'r diwrnod agored yn gyfle gwych i gael cipolwg ar y datblygiadau dros y cyfnod hwn.

Dafydd Llywelyn ar stondin y Comisiynydd

Dywedodd Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, Dafydd Llywelyn:

"Roedd heddiw'n gyfle gwerthfawr i aelodau'r cyhoedd ymweld â Phencadlys yr Heddlu i siarad â swyddogion a staff am faterion eang sy'n gysylltiedig â phlismona."

Cafwyd trafodaethau diddorol a phwysig am y gwasanaethau sydd ar gael i ddioddefwyr trosedd, a'r sawl sy'n agored i niwed, gwaith ein gwirfoddolwyr, y prosiect Teledu Cylch Cyfyng, a sut mae'r heddlu'n defnyddio grym. Diolch i bawb wnaeth ddod am sgwrs - diolch.

Cyn hir mi fyddaf yn lansio fy fforwm ymgysylltu ieuenctid cyntaf erioed, a fydd yn gyfle i bobl ifanc ddweud eu dweud ar faterion plismona a throseddu. Os ydych rhwng 11 ac 18 oed hoffwn glywed gennych. Cysylltwch â'm swyddfa a chadwch lygad ar ein gwefan i glywed mwy am y modd y gallwch weithio gyda ni - 01267 226 440 neu opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk. *http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk*.

Dywedodd y Prif Gwnstabl, Mark Collins:
"Rydw i'n falch iawn fod y gymuned wedi cael cyfle i ymweld â'n Pencadlys i gael cipolwg ar blismona. Bu llawer o newidiadau dros yr 50 mlynedd diwethaf, ond un elfen o blismona nad yw wedi newid yw ein hethos o weithio gyda'r cyhoedd. Mae'r llu'n parhau i chwilio am gyfleoedd i ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn gwrando, deall ac ymateb i'r materion sy'n effeithio ar fywyd pob dydd ein cymunedau.

Roedd modd i ymwelwyr edrych o gwmpas ac eistedd yng ngheir y llu, o'r gorffennol i'r presennol, dringo i mewn i gwch yr heddlu, cyfarfod â'r cŵn o uned cŵn yr heddlu, clywed sut mae'r uned safle troseddi'n gweithio a dysgu ychydig am hanes y llu. Roedd stondinau gan bartneriaid lle'r oedd modd i'r cyhoedd ddysgu am waith sefydliadau eraill sy'n gweithio gyda'r heddlu i helpu'r cymunedau yr ydym yn gweithio ynddyn nhw.

Uchafbwyntiau'r dydd oedd arddangosiad tân sosban sglodion gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, arddangosfa ymlid heddlu ac arddangosfa gwrthdrawiad ar y ffordd.

Dilynwch #HDPP50 i weld beth arall rydyn ni wedi gwneud i ddathlu ein hanner canfed blwyddyn fel un gwasanaeth.

COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

Heddlu Police
DYFED-POWYS

Dal Heddlu Dyfed-Powys i gyfrif

Mae fy swyddfa wedi cyflwyno proses newydd o'r enw "Craffu Cefnogol", sy'n ffordd o gyflawni fy nyletswyddau i wneud y Prif Gwnstabl yn atebol am gyflenwi gwasanaethau plismona effeithiol ac effeithlon, drwy ystyried y materion y gallaf gael yr effaith fwyaf arnynt.

Mae fy staff yn gweithio ar draws ystod eang o feysydd busnes, ac yn bwydo gwybodaeth i mewn i 'bair' lle mae pynciau'n cael eu dewis drwy gyfres o gwestiynau er mwyn pennu:

Beth mae'r cyhoedd yn poeni amdano fwyaf



Beth sy'n mynd i wneud y gwahaniaeth mwyaf - o ran defnyddio adnoddau neu gyflenwi gwasanaethau

Beth sy'n arbennig o dda - er mwyn helpu'r Heddlu i adnabod a rhannu arfer da

Beth sydd ddim yn mynd cystal - er mwyn cefnogi gwelliannau a sicrhau nad oes unrhyw bethau annisgwyl

Beth y gallaf ddylanwadu arno - ac, yn bwysicach, adnabod yr hyn dwi'n gallu ei wneud, a'r hyn nad wy'n gallu ei wneud

O'r broses hon, mae blaengynllun gwaith o weithgarwch craffu yn cael ei greu, sy'n cynnwys ymwelwyr lleyg, adolygiadau panel annibynnol, paneli craffu arbenigol, a chraffu dwys ar themâu penodol. Gallwch ddarllen rhagor am y gwirfoddolwyr sy'n rhan o'm cynlluniau ymweliadau lleyg ar fy ngwefan.

Mae fy Mhanel Craffu ar Warediadau y Tu Allan i'r Llys (cliciwch yma)yn cynnwys cynrychiolwyr o bob cwr o'r sector cyfiawnder troseddol, ac yn cyfarfod bob tri mis er mwyn adolygu troseddau a gafodd eu trin drwy ganlyniadau eraill yn lle llys, megis rhybuddion a datrysiadau cymunedol. Mae gwaith amlycaf y Panel hyd yn hyn yn cynnwys annog adolygiad mewnol i droseddau rhywiol ieuenctid, gwell hyfforddiant ar gyfer swyddogion, a gwelliannau i bolisïau'r Heddlu er mwyn cefnogi swyddogion i wneud y penderfyniadau mwyaf priodol o ran cyflenwi cyfiawnder effeithiol a chymesur.

Mae fy Mhanel Sicrhau Ansawdd yn cynnwys grŵp o breswylwyr Dyfed-Powys sy'n dod at ei gilydd bob chwe mis er mwyn adolygu hap samplau o'r amryw ffyrdd y mae Heddlu Dyfed-Powys yn rhyngweithio â'r cyhoedd. Maen nhw wedi ystyried ymateb cychwynnol yr Heddlu i alwadau am wasanaeth (trwy wrando ar alwadau 999 ac 101), troseddau casineb, prosesau stopio a chwilio, ffeiliau cwynion sydd wedi cau, ac achosion lle bu'n rhaid i swyddogion ddefnyddio grym. Mae'r adborth a gyflwynwyd ganddynt i'r Heddlu wedi cefnogi gwelliannau i brosesau cofnodi, adnabod meysydd o arfer da, a rhoi dealltwriaeth i mi o ba mor dda y mae'r Heddlu'n cefnogi dioddefwyr ac yn trin pawb maen nhw'n cyfarfod â nhw â thegwch a pharch.

Yn ddiweddar, cynhaliodd fy swyddfa ei phroses craffu dwys gyntaf i'r ffordd y mae swyddogion Heddlu Dyfed-Powys yn defnyddio eu pwerau i ddefnyddio grym. Roedd hyn yn cynnwys ymgynghori ag aelodau o'r cyhoedd, grwpiau ffocws gyda swyddogion a staff, adolygiadau o'r data a'r adborth a roddwyd gan adrannau Heddlu Dyfed-Powys, ymholiadau a wnaed gan fy Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd, ac adolygiad gan fy Mhanel Sicrhau Ansawdd o ffilm Camera Corff o swyddogion yn defnyddio grym. Canfu'r adolygiad rai diffygion o ran casglu, coladu a dadansoddi data'n gywir o ran sut y mae swyddogion Heddlu Dyfed-Powys yn defnyddio grym.

Mae gwaith SCHTh yn cefnogi
fy ngallu i drafod a lobïo dros
adnoddau gwell ar gyfer
Heddlu Dyfed-Powys."

Mae nifer o argymhellion wedi'u rhoi gerbron y Prif Gwnstabl, y bydd fy nhîm yn eu monitro dros y misoedd nesaf - cadwch lygad ar fy ngwefan i gael yr wybodaeth ddiweddaraf. Byddaf yn cynnal 3 ymarfer Craffu Dwys drwy gydol y flwyddyn, a byddaf yn gofyn am eich barn ar wahanol bynciau.

Cyngor Hil Cymru 2018

Roeddwn yn falch iawn o gefnogi dathliad Mis Hanes Pobl Dduon Cyngor Hil Cymru. Mae Mis Hanes Pobl Dduon yn dathlu cyfraniadau pobl o dras Affricanaidd yng Nghymru. Cynhaliwyd lansiad y dathliadau ddydd Llun 1 Hydref, ym Mhrif Neuadd Undeb y Myfyrwyr, Prifysgol Aberystwyth.

Cynhaliwyd y digwyddiad ar y cyd rhwng Cyngor Hil Cymru, Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth a fy swyddfa i, ac roedd yn bleser gen i agor y digwyddiad. Mae angen i ni ystyried sut y gallwn ystyried yr hanes, a'i ddefnyddio fel sbardun ar gyfer newid i'r dyfodol. Mae angen i ddigwyddiad 1 Hydref ddod yn ddigwyddiad rheolaidd, ac rwyf wedi ymrwymo i gefnogi hyn.

Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Richard Lewis; Uzo Iwobi, OBE, Prif Weithredwr Cyngor Hil Cymru; Joyce Watson AC - Comisiynydd Cydraddoldebau; CHTh Dafydd Llywelyn, a Wahda Placide - Cerddor

Fy ngobaith ar gyfer digwyddiadau o'r fath yw y byddant yn chwalu rhwystrau, ac rwy'n annog unigolion o bob cefndir i wneud cais i weithio i Heddlu Dyfed-Powys. Mae angen i bob asiantaeth sector cyhoeddus sicrhau ein bod ni'n cynrychioli'n holl gymunedau, a'r amrywiaeth o fewn y cymunedau hynny, nid yn unig yn Heddlu Dyfed-Powys.

"Roedd yn ddiwrnod da iawn, yn llawn gwybodaeth; cyfraniadau diddorol gan bawb, ac maen nhw wedi creu argraff fawr arnaf. Rwy'n edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf."

Roeddwn felly yn falch o weld staff o adran Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Heddlu Dyfed-Powys yn rhoi cyflwyniad ar ymrwymiad yr heddlu i fynd i'r afael â throseddau casineb yn ardal yr heddlu, a phwysigrwydd cael gweithlu amrywiol. Roedd yn galonogol gweld myfyrwyr yn siarad â'r staff am bwysigrwydd adrodd am droseddau casineb, a hefyd y posibilrwydd o ddod yn swyddog heddlu.

Llifogydd yr Hydref

Roedd mis Hydref yn gyfnod heriol iawn i nifer o gymunedau ardal Heddlu Dyfed-Powys o ganlyniad i'r amodau tywydd garw nad oedd modd eu rhagweld. Gwelwyd y llifogydd gwaethaf ers dros 30 mlynedd; amharwyd ar fywydau nifer o bobl, ac i rai roedd yr effaith yn fwy pellgyrhaeddol fyth. Cyhoeddwyd digwyddiad tyngedfennol ar draws Sir Gaerfyrddin oherwydd maint y galwadau gweithredol a gallu'r heddlu i ymateb i ddigwyddiadau parhaus. Ar ben hyn, effeithiwyd ar ardaloedd yng Ngheredigion a De Powys wrth i nifer o ffyrdd a phontydd gael eu cau.

Gwelsom ymdrech arbennig gan y gwasanaeth heddlu a'i bartneriaid, gwahanol asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd mewn ymateb i sefyllfa a oedd yn achosi perygl i fywyd a difrod i eiddo. Yn drasig, cafodd unigolyn ei ladd mewn tirlithriad yn Sir Gaerfyrddin, ac mae bron yn sicr y byddai bywydau eraill wedi'u colli pe na bai'r partneriaid wedi ymateb mor sydyn ar y cyd. Fel sefydliad sydd heb ei ddatganoli, mae nifer o heriau wrth weithio mewn cyd-destun datganoledig. I mi, fodd bynnag, roedd ymateb broffesiynol ac amserol yr asiantaethau, a oedd yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn gwarchod ein cymunedau, yn esiampl ragorol o wir bartneriaeth ar waith.

"roedd ymateb broffesiynol ac amserol yr asiantaethau, a oedd yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn gwarchod ein cymunedau, yn esiampl ragorol o wir bartneriaeth ar waith."

Mae'r cymunedau a effeithiwyd gan y digwyddiadau erchyll hyn bellach yn dechrau ail-afael yn eu bywydau. Er mwyn gallu gwneud hyn, hoffwn gyfeirio'r sawl sydd wedi'u heffeithio at wefan Cyfoeth Naturiol Cymru, lle ceir gwybodaeth ymarferol am beth i'w wneud cyn, yn ystod, ac ar ôl llifogydd.

Ceir gwybodaeth ar sut i ddelio ag effeithiau llifogydd yma:

https://naturalresources.wales/?lang=cy

2018 ARAD GOCH #Hudo

Yn y gorffennol, rwyf wedi rhoi grantiau i nifer o grwpiau cymunedol yn ardal Dyfed-Powys, drwy fy nghynllun 'Ariannu Cymunedol y Comisiynydd', ac mae wastad yn braf gweld ffrwyth yr ariannu hyn.

Ar ddechrau mis Medi, es i ymweld â Chwmni Theatr Arad Goch yn Aberystwyth, er mwyn eistedd yn un o ymarferion cynhyrchiad yr wyf wedi ei ariannu drwy'r cynllun uchod.

Roedd hi'n bleser gallu cyfrannu £5,000 tuag at ymchwilio a sgriptio cynhyrchiad newydd Cwmni Theatr Arad Goch – '#Hudo / #Tempted'. Nod y cynhyrchiad, a fydd yn cael ei berfformio yn y Gymraeg a'r Saesneg, yw codi ymwybyddiaeth pobl ifanc o'u hawliau yn y Gyfraith o ran camfanteisio rhywiol.

O ran camfanteisio rhywiol, mae'n bwysig cofio nad problem ddinesig yn unig mohoni: mae hefyd yn bodoli mewn ardaloedd gwledig yma yn Nyfed-Powys. Mewn ardaloedd gwledig mae yma broblemau sydd yn ymwneud ag unigrwydd a bod yn ynysig, ac mae'n gallu effeithio'n fawr ar bobl ifanc. Nid oes ganddynt, yn aml, rwydwaith o gysylltiadau agos, ac mae apêl y cyfryngau digidol, a'r mynediad rhwydd iddynt, yn creu argyfyngau a phroblemau newydd i bobl ifanc.



Mae'n hollbwysig, felly, codi eu hymwybyddiaeth o gamfanteisio rhywiol. Mae '#Hudo / #Tempted', wedi bod yn teithio o gwmpas Ceredigion a Sir Gâr yn ystod Hydref a Thachwedd. Diolch yn fawr i Gwmni Theatr Arad Goch, a chast '#Hudo / #Tempted', am gyflwyno'r neges hollbwysig hon mewn modd mor effeithiol.

I gael rhagor o wybodaeth am y ddrama, ewch i
http://aradgoch.cymru/index.php/beth-sy-mlan/llawn1/hudo

Y Comisiynydd yn gwrando ar lais pobl ifanc yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb

#NHCAW OCTOBER | NATIONAL HATE CRIME AWARENESS WEEK

2018
13EG-20FED
HYDREF

Roeddwn yn falch iawn o gefnogi ystod o weithgareddau oedd wedi'u hanelu at wrando ar lais pobl ifanc trwy gydol Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb, rhwng 13-20 Hydref 2018. Cefnogwyd y digwyddiadau gan gyllid Llywodraeth Cymru.

Dewisais gefnogi partneriaid yn y diwydiannau creadigol, i weithio gyda phobl ifanc drwy gydol yr wythnos, er mwyn gwrando ar eu llais, i herio canfyddiadau a chamddealltwriaeth ac er mwyn rhoi diwedd ar gasineb.

> "Cyfle i ddangos i ddioddefwyr y drosedd ofnadwy hon pa mor ddifrifol rydym yn trin eu profiadau"

Mae'r Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb yn gyfle i ddangos i ddioddefwyr y drosedd ofnadwy hon pa mor ddifrifol rydym yn trin eu profiadau, a roeddwn yn annog mwy o bobl i ddod ymlaen a chael help os nad oeddent eisoes wedi gwneud hynny.

Roeddwn yn apelio ar unrhyw un sy'n gweithio gyda'r cyhoedd, gan gynnwys ein harweinwyr ieuenctid, gwirfoddolwyr a phartneriaid cyfiawnder troseddol yn ogystal â thrigolion ein cymunedau, i uno â ni trwy gydol yr wythnos i ddweud na wrth droseddau casineb."

Y Comisiynydd, Dafydd Llywelyn, yn sefyll gyda Chomisiynwyr eraill y DU gan ddweud Na wrth gasineb

Ceir manylion isod am y gweithgareddau yr oeddwn wedi'u cefnogi ar gyfer Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb yn y pedair sir.

Mae gen i stori TRAVELLING AHEAD

Mae hwn yn brosiect ar y cyd rhwng Theatr Genedlaethol Cymru a 'Teithio Ymlaen' - Fforwm Ieuenctid Rhanbarthol Gorllewin Cymru ar gyfer pobl ifanc o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Nod y prosiect yw i bobli fanc o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr Sir Benfro, sy'n aml yn dioddef o droseddau casineb, gymryd rhan mewn cyfres o weithdai sgriptio/drama. Y nod yw torri'r rhwystrau a all fodoli rhwng gwahanol gymunedau yn Nyfed-Powys a Chymru gyfan, a all arwain at gasineb.

Theatr Genedlaethol Cymru

Fe wnes i hefyd fwynhau cwrdd â Fforwm Ieuenctid Travelling Ahead yng Nghastell Caeriw yn ystod Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb.
Edrychaf ymlaen at weld y berthynas yn datblygu.

Gweithdy Drama Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb

Menter Gorllewin Sir Gâr

Dywedodd Prif Weithredwr Menter Gorllewin Sir Gâr, Dewi Snelson

“Roedd hwn yn gyfle gwych i’r Fenter Iaith, Theatr Genedlaethol Cymru a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu gydweithio a rhannu eu harbenigeddau er lles un achos, sef codi ymwybyddiaeth pobl ifanc o droseddau casineb. Rydym yn croesawu pob cyfle i weithio gyda’n cymunedau lleol”.

Myfyrwyr sydd ag Anableddau Dysgu

Cefnogais MIRUS Care trwy Gydlynydd Plismona Dinasyddion Heddlu Dyfed-Powys. Cydweithiwyd â grŵp o fyfyrwyr o Brifysgol Aberystwyth sydd ag anableddau dysgu er mwyn codi ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb. Gwnaeth y myfyrwyr roi o'u hamser er mwyn codi ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb ochr yn ochr â'u gweithwyr cymorth a'r Tîm Plismona Lleol yn ystod yr wythnos.

Casáu Iaith

Cynhaliwyd Gweithdy Pobl Ifanc yn Ysgol Uwchradd Crughywel i godi ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb yn erbyn dewis iaith neu hunaniaeth unigolyn. Y nod oedd herio canfyddiadau a chamdybiaethau mewn perthynas â rhai grwpiau o bobl oherwydd eu dewis iaith a'u defnydd o iaith benodol, mewn amgylchedd agored, heb fygythiad.

Dangos y cerdyn coch i gasineb

Ymunodd Cadetiaid Aberhonddu â thîm ieuenctid tref Aberhonddu i gael gêm bêl-droed gyfeillgar ddydd Sadwrn 20 Hydref er mwyn hyrwyddo gweithgareddau'r wythnos. Defnyddiai'r Cadetiaid lesys lliwiau'r enfys LGBT yn eu hesgidiau rhedeg, gar roi i'r chwaraewyr eraill rai chwibanau, bandiau garddwrn LGBT a llyfrynnau ar sut i adrodd ar droseddau casineb.

Roedd y digwyddiad pêl-droed yn lot o hwyl a phawb yn mwynhau. Ymunodd rhai o swyddogion heddlu Aberhonddu yn y gêm, a oedd yn ffordd wych o chwalu unrhyw rwystrau rhwng y bobl ifanc a'r heddlu.

Cwrdd â chymuned Rhydaman

Y Comisiynydd gydag aelodau o Alzheimer's Cymru

Un o'r prif bethau rwyf wedi ymrwymo i'w gwneud yn fy Nghynllun Heddlu a Throseddu yw ymgysylltu â chymunedau lleol. Rwyf am i chi weithio gyda fi ar faterion lleol sy'n ymwneud â phlismona a chyfiawnder troseddol, fel y gallwn ddatrys problemau gyda'n gilydd. Rwyf am i chi ymddiried yn yr heddlu a chael hyder ynddynt. Bob mis, rwyf i, ar y cyd â'm tîm ymgysylltu, yn trefnu nifer o gyfleoedd a digwyddiadau i'r cyhoedd ymgysylltu â ni.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i gyflwyno aelod mwyaf newydd fy nhîm Ymgysylltu, sef Helen Shayle. Mae gan Helen brofiad helaeth, a hithau'n gyn-aelod o staff Heddlu Dyfed-Powys. Mae hefyd yn gwnselydd profiadol, wedi gweithio gyda phobl ifanc ers sawl blwyddyn, ynghyd â gwirfoddoli ac ymwneud â'i chymuned leol. Mae Helen a'r tîm yn brysur ar hyn o bryd yn trefnu cyfleoedd i chi ymgysylltu â fi a'm swyddfa.

"Yn ddiweddar, fe es i a'r Comisiynydd i ymweld â Rhydaman, un o'r trefi diweddaraf i elwa ar y camerâu Cylch Cyfyng fydd yn cael eu cyflwyno ledled yr ardal. Roedd y ddau PCSO Alex Mullock ac Arwyn Rees yn gwmni i ni, a buon ni'n siarad â gwahanol fusnesau yn Rhydaman am y camerâu newydd sydd wedi'u gosod yn y dref. Fe wnes i wir fwynhau siarad â'r busnesau lleol, yn enwedig i gael eu barn ar y camerâu. Mae'r rhai dwi wedi siarad â nhw'n gefnogol iawn, ac yn gweld mantais defnyddio'r camerâu i arbed troseddau ac fel ein bod yn gwybod amdanynt. Bydd ystafell yn y Pencadlys i fonitro'r camerâu 24/7. Un o flaenoriaethau eraill y Comisiynydd yn ei Gynllun Heddlu a Throseddau yw diogelu'r rhai sy'n agored i niwed. Yn Rhydaman, aethom i ymweld â chymdeithas Alzheimer's a thrafod eu rôl gwerthfawr.

-Helen Shayle

Helen Shayle, Swyddog Ymgysylltu yn cwrdd â'r gymuned